LC400

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apeliadau) (Cymru) 2002**

Mae’r rhain yn gwneud darpariaeth drefniadol ar gyfer apeliadau i’r Cynulliad gan berchenogion neu ddeiliaid safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, mewn perthynas â phenderfyniadau neu weithrediadau penodol Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Nodyn esboniadol – 2ail baragraff**

Mae’n bosibl y bwriadwyd i “in relation for Wales” ddarllen fel “in relation to Wales”

**Rhagarweiniad**

Dylai troednodyn (c) gyfeirio at adran 99 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 er mwyn nodi sut y mae’r gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau yn gymwys i’r pwerau a enwyd.

Yn nhroednodyn (a) byddai “replaced” yn fwy eglur na “substituted”.

**Rheoliad 2(1) – “cyfathrebu electronig”**

Dylai “cel” ddarllen fel “cael”.

**Rheoliad 3(g)**

Dywedir bod cyfnod yr apêl yn achos apêl hysbysiad rheoli wedi'i nodi "by these Regulations". Deellir bod hyn yn cyfeirio at y cyfnod o ddau fis a bennir yn rheoliad 6(2)(a)(i) sy'n ymwneud ag eithriad rhag y gofyniad cyffredinol yn rheoliad 6(1) y mae'n rhaid i'r Cynulliad roi copi o'r hysbysiad apêl i'r Cyngor oddi tano.

**Rheoliad 7(1)(c)**

Efallai y byddai "diddordeb" yn fwy addas na "fuddiant".

**Rheoliad 7(3)**

Mae hwn yn gofyn i "regulation 7(1)(b) party" nodi a yw'n dymuno i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat. Fodd bynnag ymddengys mai effaith Rheoliad 14(11) yw mai dim ond ar gais yr apelydd y gellir cynnal gwrandawiad yn breifat.

**Rheoliad 14(6)(i)**

Tybir bod "paragraph (4)" yn wall teipio ac y dylai ddarllen fel "paragraph (5)".

Mick Bates AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

25 Mehefin 2002